Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

# Ymateb Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru i: Llywodraeth Cymru - Canllawiau Statudol Cam-drin Domestig

Yn cau 01 Hydref 2021

**Cwestiynau**

1. **Ydych chi'n ymateb fel unigolyn neu fel unigolyn ar ran, neu fel rhan o, sefydliad?**
   Unigolyn fel rhan o sefydliad.

2. **Os ydych yn ymateb ar ran, neu fel rhan o sefydliad, pa fath o sefydliad ydyw?**
   Arall.

3. **Beth yw enw'r sefydliad?**
   Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru. Caiff ei gynnal gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

4. **O'r rhestr isod, ble ydych chi wedi eich lleoli / ble mae eich sefydliad wedi'i leoli?**
   Cymru

5. **A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar Bennod 1 ('Amcanion') o ran cynnwys neu eglurder?**
   Dim sylwadau

6. **A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar Bennod 2 ('Deall Cam-Drin Domestig') o ran cynnwys neu eglurder?**
   Cam-drin Plentyn - i - Riant; er i rieni, y rhai sydd â chyfrifoldeb rhieni, brodyr a chwiorydd neu deulu estynedig gael eu nodi. Rydym yn credu y dylid rhoi sylw penodol i Warchodaethau Arbennig a Gorchmynion Trefniadau Plant, oherwydd efallai y bydd angen cefnogaeth ychwanegol i gynorthwyo'r dibynnydd yn dilyn y rheswm am y trefniadau.

   Rydym yn deall y rheswm pam nad oes data ar gyfer dioddefwyr dros 74, fodd bynnag, rydym yn credu bod angen diweddaru Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr i gynnwys gwybodaeth ar ddioddefwyr a throseddwyr dros 75 oed.

   Er bod y bennod yn cynnwys gwybodaeth fanwl iawn ar nifer o faterion, nid oes unrhyw sôn am gam-drin domestig mewn ymateb i gemau chwaraeon. Yn enwedig pan fo tystiolaeth yn dangos bod achosion o gam-drin domestig yn gallu cynyddu pan mae tîm (yn enwedig tîm cenedlaethol) yn colli.

**7. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar Bennod 3 ('Yr Effaith ar Ddioddefwyr') o ran cynnwys neu eglurder?**

Rydym yn falch o weld ffocws ar blant fel dioddefwyr. Fodd bynnag, ychydig iawn o fanylion sydd yna am y gefnogaeth a ddylai ac a fydd yn cael ei darparu ar eu cyfer. Nid oes unrhyw sôn am yr effaith pan fo trosedd megis lladdiad wedi digwydd (cymorth profedigaeth arbenigol) neu'r gefnogaeth ychwanegol sydd efallai ei hangen pan maent yn cael eu rhoi dan Warchodaethau Arbennig neu Orchmynion Trefniadau Plant.

**8. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar Bennod 4 ('Ymateb yr Asiantaeth i Gam-Drin Domestig') o ran cynnwys neu eglurder?**

Nid oes llawer o sôn am gyd-destun Cymru yn yr adran hon. Mae angen bod yn fwy clir pan yn cyfeirio at Loegr yn unig a phan mae'n berthnasol i Gymru a Lloegr. Er enghraifft, nid oes unrhyw sôn am Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2015 yn y wybodaeth Ddiogelu.

Rydym yn falch o weld ffocws ar blant fel dioddefwyr. Fodd bynnag, ychydig iawn o fanylion sydd yna am y gefnogaeth a ddylai ac a fydd yn cael ei darparu ar eu cyfer. Nid oes unrhyw sôn am yr effaith pan fo trosedd megis lladdiad wedi digwydd (cymorth profedigaeth arbenigol) neu'r gefnogaeth ychwanegol sydd efallai ei hangen pan maent yn cael eu rhoi dan Warchodaethau Arbennig neu Orchmynion Trefniadau Plant.

Mae diffyg trafodaeth ac unrhyw sôn am gynyddu diogelwch o amgylch eiddo i alluogi dioddefwyr a'u teuluoedd i aros yn eu cartrefi eu hunain. Os ydym yn wir eisiau galluogi a grymuso pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain, rhaid i sicrhau cyngor, cefnogaeth a gwasanaethau i wneud y cartrefi mor ddiogel â phosibl, fod yn rhan o'r pecyn cymorth.

**9. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar Bennod 5 ('Gweithio Gyda'n Gilydd i Fynd i'r Afael â Cham-Drin Domestig') o ran cynnwys neu eglurder?**

Rydym yn awyddus i weld Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn cael eu nodi fel elfen allweddol ar gyfer mynd i'r afael â Cham-Drin Domestig. Fe allai methiant i wneud hyn olygu bod rhai cyfleoedd i ganfod dioddefwyr neu ar gyfer datrysiadau partneriaeth yn cael eu colli. Rydym o blaid y dulliau aml-asiantaeth y cyfeirir atynt yn y bennod a chyd-weithio'n agos gyda thimau diogelu.

Wrth grybwyll yr Adolygiadau Lladdiad Domestig, rydym yn meddwl ei bod hefyd yn werth cyfeirio at broses yr Adolygiad Unedig Sengl o Waith Diogelu sy'n cael ei datblygu yng Nghymru, a chysylltiadau posibl gyda chynllun peilot Adolygiadau Lladdiadau Arfau Ymosodol, lle gallai perthynas flaenorol ddod i'r amlwg yn ystod y broses adolygu.

10. **A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar Bennod 6 ('Ymateb Comisiynu i Gam-Drin Domestig') o ran cynnwys neu eglurder?**
 Mae angen cael gwahaniad mwy amlwg rhwng yr hyn sy'n ofynnol yn Lloegr a'r hyn sy'n ofynnol yng Nghymru a Lloegr. Mae llawer o'r eitemau sy'n berthnasol i Loegr yn unig, eisoes yn weithredol yng Nghymru drwy ddeddfwriaeth bresennol.

11. **A oes unrhyw ffyrdd trosfwaol i wella'r canllawiau, yn eich barn chi? Nodwch eich sylwadau.**
 Mae angen cael gwahaniad mwy amlwg rhwng yr hyn sy'n ofynnol yn Lloegr a'r hyn sy'n ofynnol yng Nghymru a Lloegr. Mae llawer o'r eitemau sy'n berthnasol i Loegr yn unig, eisoes yn weithredol yng Nghymru drwy ddeddfwriaeth bresennol. Gellid gwneud hyn drwy ychwanegu paragraff mewn perthynas â Chymru ym mhob un o'r penodau gwahanol.

12. **Ydych chi'n credu bod yr astudiaethau achos o gymorth? Os oes unrhyw astudiaeth achos nad oedd o gymorth i chi, rhowch sylwadau ychwanegol isod, gan sicrhau eich bod yn cyfeirio at yr astudiaeth achos sy'n ymwneud â'ch sylw.**
 Dim sylwadau

13. **A oes unrhyw beth ar goll o'r canllawiau yr hoffech chi ei weld yn cael ei gynnwys?**
 Rydym yn credu bod angen cyfeiriad cryfach at feysydd datganoledig, megis addysg, a'r newidiadau sydd eisoes ar y gweill. Er enghraifft, y cwricwlwm newydd gyda ffocws ar berthnasau iach.

 Roedd yn ymddangos fod addysg ar berthnasau iach fel rhan o adnabod ac atal yn gynnar, ar goll o'r fframwaith. Os yw dioddefwyr posib' yn gallu adnabod ymddygiadau perthynas afiach yn gynnar, yna fe ddylai fod yn bosibl i sicrhau cymorth yn gynt.

**Cyflwyniad i Rwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru**
Sefydlwyd Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru yn Ionawr 2021 yn dilyn argymhellion Adolygiad Gweithio Gyda'n Gilydd i greu Cymunedau Mwy Diogel Llywodraeth Cymru. Nod y Rhwydwaith yw dod yn lais strategol ar gyfer diogelwch cymunedol yng Nghymru, gan gydweithio i gefnogi partneriaeth diogelwch cymunedol a dylanwadu ar siapio a datblygu polisi cenedlaethol ac ymarfer lleol. Mae'r ymateb hwn ar ran y Rhwydwaith, nid CLILC.

**Dylid anfon yr ymatebion i'r ymgynghoriad i:**
**[DomesticAbuseConsultation@homeoffice.gov.uk](mailto:DomesticAbuseConsultation@homeoffice.gov.uk)**